GENERATION
NEW ERA

A STUDY OF CHILDREN
BORN IN THE 2020s

CYMER YR HANNER O GENHEDLAETH CYFNOD NEWYDD

Eich canllaw i'r astudiaeth

UCL

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 1 09/10/2026 10:14:09

YNGHYLCH YR ASTUDIAETH

Cenhedlaeth Oes Newydd [Generation New Era] yw'r astudiaeth newydd gyntaf ledled y DU o fabanod mewn 25 mlynedd.

Mae teuluoedd ledled y DU wedi profi llawer o newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Sut beth yw bywyd i fabanod sy'n cael eu geni nawr? Pa gyfleoedd a heriau sydd gan blant heddiw?

Drwy fod yn rhan o Generation New Era, **byddwch yn gwneud cyfraniad pwysig i gymdeithas**, gan helpu taflu goleuni ar faterion sy'n bwysig i deuluoedd nawr.

"Mae'r astudiaeth hon yn rhoi cyfle unwaith mewn oes i ddarganfod sut beth yw bywyd i deuluoedd heddiw, fel y gallwn ni ddysgu sut i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn."

– Joyce, Nyrs Arweiniol

Sut bydd yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd Generation New Era yn helpu sicrhau newid gwirioneddol i deuluoedd. Mae canfyddiadau o astudiaethau tebyg wedi:

- cefnogi hawliau gwell i rieni (absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu hirach, amser i ffwrdd â thâl i dadau a hawliau gweithio hyblyg).
- helpu i sicrhau cyllid o £50m ar gyfer gwasanaethau bwydo babanod mewn 75 o ardaloedd difreintiedig.
- profi ei bod yn fwy diogel i fabanod gysgu ar eu cefn, gan lywio canllawiau cysgu diogel.

Mae pedair astudiaeth genedlaethol arall o bobl a aned ym 1946, 1958, 1970 a 2000 yn dal i gael eu cynnal heddiw. Dysgwch ragor am y gwahaniaeth y mae'r astudiaethau hyn wedi'i wneud a'r hyn y mae pobl yn ei ddweud am gymryd rhan: gnestudy.info

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn taleb siopa stryd fawr fel diolch am eu hamser.



Pam cymryd rhan?

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 2 09/10/2026 10:14:10

BETH SY'N GYSYLLTIEDIG?

1

Bydd cyfwelydd hyfforddedig a chyfeillgar yn ymweld â chi yn eich cartref – bydd yn gofyn a hoffech chi gymryd rhan ac ateb eich cwestiynau. Byddant bob amser yn cario cerdyn adnabod gyda llun. Os nad yw'n gyfleus, byddant yn dod yn ôl ar adeg fwy hwylus. Gallwch ddweud wrthym pryd sy'n gyfleus i ffonio: ipsos.uk/contactgne

2

Bydd apwyntiad cyfweliad yn cael ei drefnu – Os ydych chi am gymryd rhan, bydd y cyfwelydd yn trefnu diwrnod ac amser sy'n addas i chi.

Cael gwybod mwy

3

Mae un rhiant yn gwneud cyfweliad 60 munud – mae hyn yn bersonol gyda'r rhiant sy'n treulio'r rhan fwyaf o amser gyda'rbabi.

Mae un cyfweliad yn hirach gan mai dim ond unwaith y mae angen i ni ofyn rhai cwestiynau fesul aelwyd

Swigen: Eich dewis chi yw cymryd rhan bob amser, a gallwch dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg.

4

Mae'r rhiant arall (os yw'n byw yn yr un cyfeiriad) yn gwneud cyfweliad 30 munud

Os yw'n byw yn yr un cyfeiriad, gall hyn fod yn bersonol, ar-lein neu weithiau dros y ffôn, pa un bynnag sy'n fwyaf addas.

Byddwn ni'n eich gwahodd i gymryd rhan eto i weld sut mae eich plentyn yn gwneud wrth iddo dyfu i fyny – yn ôl pob tebyg pan fydd yn 3 oed. Pan fydd eich plentyn yn hŷn, gall benderfynu drosto'i hun a yw am barhau i gymryd rhan.

5

Bydd un rhiant yn cael gwahoddiad i lawrlwytho'r ap BabySteps – gallwch olrhain cerrig milltir eich babi ac ennill talebau ychwanegol trwy weithgareddau ymchwil.



UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 3 09/10/2026 10:14:10

Pa aelodau o'r teulu sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan?

Mae'n bwysig ein bod yn clywed gan dadau yn ogystal â mamau, gan gynnwys rhieni nad ydynt efallai'n byw gyda'u plentyn, ni waeth beth yw eu cysylltiad â'u babi.
Mae hyn yn ein helpu i greu darlun cyflawn o fywyd pob plentyn.
Os nad ydych chi'n byw gyda rhiant arall eich plentyn, byddwn ni'n gofyn i chi am gysylltu â nhw yn eich cyfweliad ac yn eu gwahodd i gymryd rhan ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â nhw, neu os oes gennych bryderon, gallwch ddweud wrth eich cyfwelydd.

Sut dewiswyd eich teulu ar gyfer yr astudiaeth?

Mae eich teulu wedi cael ei ddewis o gofnodion genedigaethau a gedwir gan adrannau ac asiantaethau iechyd y llywodraeth. Darparodd y sefydliadau hyn eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch babi fel y gallwn ni eich gwahodd i gymryd rhan. Mae hyn wedi cael ei gymeradwyo gan bwyllgorau data iechyd arbennig ym mhob gwlad.

Pam rydym ni eisiau clywed gennych chi'n benodol?

Ni allwn ni wahodd pawb, ond mae'r teuluoedd rydym ni'n eu gwahodd yn adlewyrchu amrywiaeth pob rhanbarth a'r Deyrnas Unedig gyfan. Nod yr astudiaeth hon yw cynrychioli pawb, gan roi llais i bob teulu. Er mwyn i'r astudiaeth hon fod o bwys go iawn, mae angen i ni glywed gan bob math o deulu, diwylliant a chymuned – gan helpu deall gwahanol brofiadau ledled y Deyrnas Unedig.

"Mae'n ddiddorol bod yn rhan o.... mae'n teimlo'n arbennig iawn cael eich dewis."

– Cyfranogwr yn yr astudiaeth

Am beth fyddwn ni'n eich holi?

Byddwn ni'n gofyn am **iechyd, twf, ymddygiad, cwsg, deiet a gweithgareddau dyddiol eich babi**. Ar gyfer efeilliaid neu luosrifau, gofynnir rhai cwestiynau ar gyfer pob babi.

Byddwn hefyd yn gofyn am eich profiadau fel mam neu dad a'ch teulu: eich cartref, gwaith, cyllid, iechyd a lles, plant eraill sydd gennych, eich partner ac unrhyw gymorth, gwasanaethau neu ofal plant rydych chi'n eu defnyddio.

Gallwch hepgor unrhyw gwestiynau nad ydych am eu hateb. Atebir cwestiynau sensitif yn breifat ar gyfrifiadur y cyfwelydd - ni chânt eu trafod yn uchel.

Rydym yn gobeithio y bydd y ddau riant yn cymryd rhan, ond mae'n gyfrifoldeb i bob un ohonoch wneud eich penderfyniad eich hun.

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 4 09/10/2026 10:14:10

Pwy sy'n cynnal y cyfweliadau?

Mae Ipsos, sefydliad ymchwil annibynnol, yn goruchwylio'r cyfweliadau ar gyfer yr astudiaeth. Bydd cyfwelwyr o un o dri sefydliad ymchwil annibynnol (Ipsos, NatCen neu Verian) yn cynnal y cyfweliadau. Mae cyfwelwyr wedi'u hyfforddi, yn brofiadol ac yn dilyn rheolau llym i'ch diogelu chi a'ch gwybodaeth.

Mae'r cyfwelwyr wedi arfer siarad â mamau a thadau mewn llawer o wahanol gymunedau, sefyllfaoedd a mathau o deuluoedd. Gellir cynnal cyfweliadau mewn ieithoedd eraill hefyd.

YCHWANEGU GWYBODAETH

Mae adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth (megis y GIG) yn cadw cofnodion amdanom ni i gyd yn rheolaidd. Dyna sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Hoffem ychwanegu gwybodaeth o gofnodion **iechyd, addysga gofal cymdeithasol** ar eich cyfer chi a'ch plentyn. Byddwn ni'n gofyn i chi am hyn yn eich cyfweliad.

Drwy gytuno i'r cofnodion hyn gael eu hychwanegu at eich data yn yr astudiaeth, byddwch yn chwarae rhan bwysig wrth helpu ymchwilwyr i ymchwilio i hyd yn oed mwy o bethau sy'n effeithio ar deuluoedd. Megis:

- Sut mae bywyd cartref a gofal plant yn effeithio ar ba mor barod yw plant ar gyfer yr ysgol?
- Beth all ei gwneud hi'n anodd i blant ifanc a'u teuluoedd gael y gofal iechyd a'r cymorth sydd ei angen arnynt?
- Sut allwn ni gefnogi rhieni sydd wedi tyfu i fyny mewn gofal yn well, a theuluoedd sy'n cael cymorth gan wasanaethau plant?

Bydd eich cyfwelydd yn rhoi taflen wybodaeth i chi am hyn cyn eich cyfweliad. Eich dewis chi yw a ydych chi am adael i ni wneud hyn – gallwch chi barhau i gymryd rhan yn yr astudiaeth os penderfynwch beidio. Efallai yr hoffech chi drafod hyn gyda rhiant arall eich plentyn, gan mai dim ond y rhiant sy'n gwneud y cyfweliad hirach fydd yn cael ei holi am gofnodion eich plentyn.

Cael gwybod mwy

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 5 09/10/2026 10:14:11

GOFALU AM EICH GWYBODAETH

Pwy sy'n rhedeg yr astudiaeth?

Y Ganolfan Astudiaethau Hydredol (CLS) yng **Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL) sydd yn cynnal yr astudiaeth ac yngyfrifol am ofalu am eich gwybodaeth astudio.** Cawsom ein dewisi gynnal yr astudiaeth oherwydd ein bod ni'n brofiadol iawn o ran cynnal astudiaethau tebyg o bobl a anwyd ym 1958, 1970, a 2000, ac yn arbenigwyr yn y math hwn o ymchwil.

Mae'r tîm hefyd yn cynnwys cyfarwyddwyr astudiaethau o Brifysgol Abertawe (Cymru), Prifysgol Caeredin (Yr Alban) a Phrifysgol Ulster (Gogledd Iwerddon). Mae'r astudiaeth wedi'i hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, prif gyllidwr ymchwil gymdeithasol y Deyrnas Unedig a rhan o Ymchwil ac Arloesi y DU.

Sut ydym ni'n defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth?

Rydym yn deall unrhyw bryderon a allai fod gennych ynglŷn â rhannu manylion am eich bywyd a phrofiadau eich babi. **Mae eich preifatrwydd yn bwysig.** Cedwir y wybodaeth a roddwch yn **gyfrinachol ac yn ddiogel a chaiff ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig.**

Bydd eich gwybodaeth astudiaeth o'r cyfweliadau a gweithgareddau ymchwil ap BabySteps yn cael eu cyfuno gyda'r wybodaeth gan bawb arall yn yr astudiaeth. Mae'r data ymchwil hwn yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei wneud ar gael i ymchwilwyr ledled y byd trwy wasanaethau data dibynadwy fel Gwasanaeth Data'r DU. Os dewiswch ychwanegu gwybodaeth o gofnodion iechyd, addysg a/neu ofal cymdeithasol, **bydd y rhain hefyd ar gael i ymchwilwyr. Nid yw data ymchwil byth yn cynnwys unrhyw enwau, cyfeiriadau na manylion personol eraill** sy'n datgelu eich hunaniaeth chi na'ch teulu.

Mae eich gwybodaeth yn aros yn gwbl gyfrinachol rhag aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys rhiant arall eich babi, a chan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu fudd-daliadau rydych chi neu'ch babi yn eu derbyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, efallai y bydd yn rhaid i ni rannu'r hyn a ddywedwch wrthym — er enghraifft, os yw rhywun mewn perygl difrifol o niwed.

Defnyddir rheolau diogelwch llym a systemau diogel bob amser i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i UCL ofalu am eich gwybodaeth yn unol â GDPR, y ddeddf sy'n amddiffyn eich data personol, ac mae'n defnyddio 'tasg er budd y cyhoedd' fel sail gyfreithiol GDPR ar gyfer gwneud hyn.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys hysbysiad preifatrwydd yr astudiaeth, ar gael yn: gnestudy.info/privacy. Gallwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Os ydych chi'n poeni am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu ar gyfer yr astudiaeth, gallwch gysylltu â: Swyddfa Diogelu Data UCL: data-protection@ucl.ac.uk Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.org.uk

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 6 09/10/2026 10:14:11

Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n dewis peidio â chymryd rhan, neu'n tynnu'n ôl o'r astudiaeth?

Eich dewis chi yw cymryd rhan ai peidio. Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg, o'r cyfan neu ran ohoni yn unig, , heb egluro pam.

Os penderfynwch roi'r gorau i gymryd rhan yn y dyfodol neu os byddwn yn colli cysylltiad, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth astudiaeth rydych eisoes wedi'i darparu ar gyfer ymchwil.

Os dewiswch beidio â chymryd rhan o gwbl, ni fydd eich enw a'ch cyfeiriad chi na'ch babi o'r cofnodion geni yn cael eu cadw na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig arall o gofnodion geni i'n helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan a phwy nad yw'n cymryd rhan ac i sicrhau bod y canfyddiadau'n adlewyrchu ystod eang o deuluoedd y Deyrnas Unedig. Yna byddwn hefyd yn dileu'r wybodaeth hon yn ddiogel.

Pwy sydd wedi cymeradwyo'r astudiaeth?

Mae **Pwyllgor Moeseg Ymchwil annibynnol GIG** wedi cymeradwyo'r astudiaeth. Mae hwn yn grŵp annibynnol o bobl sydd wedi ymrwymo i ddiogelu eich diogelwch, hawliau, lles ac urddas.

Cael gwybod mwy

Cymorth a chyngor

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau ateb cwestiynau am eich babi a bywyd fel rhiant. Ni ddylai cymryd rhan achosi unrhyw niwed ac ni fydd byth yn effeithio ar unrhyw wasanaethau na gofal a gewch. Os oes unrhyw beth yn y cyfweliad yn codi pryderon, mae sefydliadau a all helpu.

Am gyngor a chymorth cyffredinol i rieni:

Home-Start:
home-start.org.uk, 0808 802 6666
info@home-start.org.uk

Am gyngor a chymorth ar faterion ariannol:

Canolfan Cyngor ar Bopeth:
citizensadvice.org.uk

Am gymorth cyfrinachol pan y profir teimladau o ofid neu anobaith.

Samariaid:
samaritans.org, 116 123

Am gymorth ynghylch cam-drin domestig:

Refuge:
refuge.org.uk, 0808 2000 247

Respect:
mensadviceline.org.uk, 0808 8010327

Am gyngor cyfrinachol ar gyffuriau ac alcohol:

Talk to FRANK:
talktofrank.com, tecstio 82111, 0300 123 6600, neu gwe-sgwrs

Am gyngor ar bryderon iechyd: cysylltwch â'ch **meddyg teulu neu ymwelydd iechyd lleol**.
Mae rhagor o ffynonellau cymorth i'w cael ar wefan yr astudiaeth gnestudy.info.

UCL 12075 GNE main study booklet_AW_awaiting content_V1_D10_Welsh.indd 7 09/10/2026 10:14:11

OES GENNYT GWESTIWN AM Y STUDY?

gnestudy@ipsos.com

gnestudy.info

@gnestudy

Freepost IPSOS GNE STUDY

GELLIR CYNNAL CYFWELIADAU MEWN IEITHOEDD ERAILL

I gael y llyfryn hwn a mwy o wybodaeth astudio mewn ieithoedd eraill, ewch **gnestudy.info**

ARABIC

يمكن إجراء المقابلات باللغة العربية للحصول على هذا الكتيب ومزيدٍ من المعلومات المرتبطة بالدراسة باللغة العربية، يُرجى زيارة الموقع الإلكتروني gnestudy.info/arabic

BENGALI

সাক্ষাৎকার অন্যান্য ভাষাতেও নেওয়া যেতে পারে।
এই পুস্তিকা এবং বাংলা ভাষায় আরও অধ্যয়নের তথ্য পেতে, অনুগ্রহ করে gnestudy.info/bengali ভিজিট করুন।

CHINESE

访谈也可使用其他语言进行
如需获取本手册以及简体中文版本的调查信息，请访问 gnestudy.info/chinese

GUJARATI

ઇન્ટરવ્યુ ગુજરાતી ભાષા કરી શકાય છે.
ગુજરાતીમાં આ પુસ્તિકા અને વધુ અભ્યાસ માહિતી મેળવવા માટે, કૃપા કરીને gnestudy.info/gujarati ની મુલાકાત લો.

PUNJABI

ਇੰਟਰਵਿਊਜ਼ ਹੋਰਨਾਂ ਭਾਸ਼ਾਵਾਂ ਵਿੱਚ ਕੀਤੀਆਂ ਜਾ ਸਕਦੀਆਂ ਹਨ।
ਇਸ ਬੁੱਕਲੇਟ ਅਤੇ ਹੋਰ ਅਧਿਐਨ ਜਾਣਕਾਰੀ ਨੂੰ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿੱਚ ਪ੍ਰਾਪਤ ਕਰਨ ਲਈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ gnestudy.info/punjabi-gurmukhi 'ਤੇ ਜਾਓ।

SHAHMUKHI

انٹرویو دوجی زباناں وچ وی کیتے جا سکدے نیں
ایہہ کتابچہ تے مطالعے بارے ہور معلومات حاصل کرن لئی، شاہ مکھی پنجابی زبان وچ gnestudy.info/punjabi-shahmukhi اُتے جاؤ۔

POLISH

Wywiady mogą zostać przeprowadzone po polsku.
Aby otrzymać niniejszą broszurę oraz uzyskać więcej informacji na temat badania po polsku, prosimy odwiedzić witrynę internetową gnestudy.info/polish.

ROMANIAN

Interviurile pot fi realizate și în alte limbi
Pentru a obține această broșură, precum și mai multe informații despre studiu în română, vă rugăm să accesați gnestudy.info/romanian.

PORTUGUESE

As entrevistas podem ser realizadas noutros idiomas
Para receber este panfleto e mais informações sobre o estudo em português, visite gnestudy.info/portuguese.

URDU

انٹرویوز دوسری زبانوں میں بھی کیے جا سکتے ہیں۔
یہ کتابچہ اور اردو زبان میں مزید مطالعاتی معلومات حاصل کرنے کے لیے، براہِ کرم gnestudy.info/urdu ملاحظہ کریں۔
"اُتے جاؤ۔

Wedi'i ariannu gan:

UKRI Economic and Social Research Council

Cyfweliadau gan:

Ipsos verian

National Centre for Social Research

24-030189-01/ M-B01W